NASUWT CYMRU The Teachers' Union Undeb yr Athrawon

# Briefing

## New Reporting Regulations from September 2022

### Background

The Welsh Government is changing the way schools report to parents/carers and adult pupils in support of the introduction of the Curriculum for Wales (CfW). The present requirement is for an annual written report. As the CfW is phased in this will increase to a CfW-amended annual report and three termly reports. The Welsh Government argues that one annual report does not: 'support the effective two way communication and engagement envisaged for CfW and supporting individual learner progression.'

The change to reporting has been approved by the Education Minister, Jeremy Miles, and now forms Welsh Statutory Instrument No.655 (W.145): The Provision of Information by Head Teachers to Parents and Adult Pupils (Wales) Regulations 2022: https://www.legislation.gov.uk/en/wsi/2022/655/made.

The new reporting system will be phased in with the CfW. This will mean that from September 2022 all maintained primary and nursery schools and secondary schools that have agreed to start the CfW this year for year 7 pupils will be included. Only pupils enrolled on the CfW will be required to have the four reports, so this requirement will increase as the CfW is phased in throughout the school.

Regulation 4 requires that:

> …the Headteacher of a maintained school to make arrangements to provide information about the pupil's termly progress to parents of registered pupils and to adult pupils.

The Regulation sets out what is required in the termly report. This will be:

1. A brief commentary on the pupil's well-being.
2. A brief commentary on the key progress and learning of the pupil.
3. A brief summary of the key progression needs of the pupil and the next steps to support that pupil's progression.
4. Brief advice on how the parents can support their child's progression.

### NASUWT's View

The NASUWT has robustly opposed the introduction of four reports a year and the workload implications of this initiative. Through NASUWT lobbying, there has been progress made by the scaling back of what the Welsh Government initially required from these reports. The NASUWT has made it clear to the Welsh Government that there must be no detriment to teachers through increased workload as a result of this new reporting system. A senior Welsh Government Education Official has responded by stating:

*'Taking on board the feedback in respect of capacity and workload concerns, requirements in respect of termly progress updates have been scaled back, seeking updates only on "key progress made and key progress needs" rather than progress across the breadth of the curriculum, as was outlined in the policy proposals in the consultation. The requirements also see* ***flexibility being afforded to head teachers to determine how the information is shared with parents, to ensure***

***that arrangements can draw on the systems schools establish to record and support learner progress, in order to reduce additional workload and burden****.*

*'Policy proposals in respect of "end-of-year" progress updates have also been reviewed following the feedback from the consultation.* ***Requirements now seek an Annual Progress Update is provided, which provides broader feedback on progress across the curriculum, but the timing of this is to be determined by the head teacher, and as was outlined in the consultation, the format of this is also for the head teacher to determine. This sees a move away from requiring annual "written" reports, the time dedicated to which in the summer term is often criticised, towards giving head teachers the autonomy to decide how best to communicate learner progress with parents, allowing them again, to establish arrangements that draw on their systems and processes in a way to minimise workload and burden.****'*

It is clear from this response and the regulations that the Welsh Government has firmly passed control over the new reporting system to Headteachers. The response also indicates that there is an opportunity to lessen the workload burden of the annual report by moving away from 'written' reports and detailed responses from individual areas of learning and moving towards 'broader feedback on progress across the curriculum.' The annual report also overlaps the termly report requirements. This means that the third termly report can be appropriately subsumed into the annual report.

## Advice to Members

It is important to note that the new reporting system, both annual and termly, does not require that the report commentary is written and it does not require a separate submission from all of the areas of learning the pupil will be covering. The emphasis is for the termly report is on the word 'brief'. Moreover, the fact that the requirements of the annual report overlap the termly report means that the annual report can include the termly report, thus reducing the number of reports down to three. It is also not specified that the reports need to be written. This means that the annual parents consultation could adequately cover the requirements of one of the reports.

NASUWT members should monitor closely how the new reporting system will be introduced in their school. Secondary schools that are not introducing the CfW until September 2023 should see no changes until then. Members in schools which are introducing the CfW should seek to consult with the headteacher as soon as possible to establish what model will be used in their school. Members should clearly indicate that the NASUWT expectation is that there will be no impact on workload by the introduction of these new reports and, indeed, there should be a reduction in workload by the new-style annual report.

The NASUWT believes that members in schools in Wales will have enough work to deal with by the introduction of the CfW. It is unacceptable that this extra work is increased by an unwieldy and excessive new reporting system.

NASUWT members that find that there is an increase in workload by the introduction of the new reporting system should contact their Local Negotiating Secretary or email the NASUWT Wales Centre on: cymru-wales@mail.nasuwt.org.uk.

talk to us

cymru-wales@mail.nasuwt.org.uk
www.nasuwt.org.uk

NASUWT CYMRU
The Teachers' Union · Undeb yr Athrawon

# Briff

## Rheoliadau Adrodd Newydd o fis Medi 2022 ymlaen

### Y Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru'n newid y ffordd y mae ysgolion yn rhoi adroddiad i rieni/gofalwyr a disgyblion sy'n oedolion i gefnogi cyflwyniad y Cwricwlwm i Gymru. Ar hyn o bryd, mae gofyniad am adroddiad ysgrifenedig blynyddol. Wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno'n raddol, bydd hyn yn cynyddu i un adroddiad blynyddol a thri adroddiad tymhorol sydd wedi eu haddasu i gyfateb â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru'n dadlau nad yw un adroddiad blynyddol yn unig 'yn cefnogi'r fath gyfathrebu ac ymgysylltu dwy ffordd effeithiol a ragwelir ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru nac yn cefnogi cynnydd dysgwyr unigol mewn gwirionedd.'

Cymeradwywyd y newid i'r rheoliadau adrodd gan Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, a bellach dyma Offeryn Statudol Cymru Rhif 655 (Cy. 145): Rheoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022: https://www.legislation.gov.uk/en/wsi/2022/655/made.

Bydd y system adrodd newydd yn cael ei chyflwyno'n raddol gyda'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn golygu y bydd pob ysgol feithrin a gynhelir a phob ysgol gynradd ac uwchradd a gynhelir sydd wedi cytuno i gychwyn y Cwricwlwm i Gymru eleni ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 yn cael eu cynnwys o fis Medi 2022 ymlaen. Dim ond ar gyfer disgyblion sydd wedi eu cofrestru ar y Cwricwlwm i Gymru y bydd gofyn cael y pedwar adroddiad, felly bydd y gofyniad hwn yn cynyddu wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno'n raddol drwy'r ysgol gyfan.

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i:

> …bennaeth ysgol a gynhelir wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth am gynnydd y disgybl o dymor i dymor i rieni disgyblion cofrestredig ac i ddisgyblion sy'n oedolion.

Mae'r Rheoliad yn nodi cynnwys gofynnol yr adroddiad tymhorol, fel a ganlyn:

1. Sylwadau cryno am les y disgybl.
2. Sylwadau cryno am gynnydd a dysgu allweddol y disgybl.
3. Crynodeb byr o anghenion cynnydd allweddol y disgybl a'r camau nesaf i gefnogi cynnydd y disgybl hwnnw.
4. Cyngor cryno ar sut y gall y rhieni gefnogi cynnydd eu plentyn.

### Barn NASUWT

Mae NASUWT yn gadarn yn ei wrthwynebiad i gyflwyno pedwar adroddiad y flwyddyn a goblygiadau'r fenter hon o ran y llwyth gwaith. Gwelwyd cynnydd o ganlyniad i waith lobïo NASUWT pan ostyngodd Llywodraeth Cymru'r gofynion yr oedd wedi eu cyflwyno ar y dechrau ar gyfer yr adroddiadau hyn. Mae NASUWT wedi dweud yn glir wrth Lywodraeth Cymru bod yn rhaid sicrhau na fydd unrhyw anfantais i athrawon drwy gynnydd mewn llwyth gwaith o ganlyniad i'r system adrodd newydd hon. Mae un o'r swyddogion uwch dros addysg yn Llywodraeth Cymru wedi ymateb drwy ddweud:

*'Wedi i ni roi ystyriaeth i'r adborth a'r pryderon am lwyth gwaith a gallu, gostyngwyd y gofynion am adroddiadau cynnydd tymhorol, a'r unig ofyniad bellach yw adroddiadau ynghylch "y cynnydd allweddol a wnaed a'r cynnydd allweddol sydd angen ei wneud" yn hytrach na chynnydd ar draws y cwricwlwm cyfan, fel yr amlinellwyd yn y cynigion polisi yn yr ymgynghoriad.* ***Yn y gofynion hefyd gwelir bod***

***hyblygrwydd i benaethiaid benderfynu sut y rhennir y wybodaeth gyda'r rhieni, i sicrhau bod y trefniadau'n gallu defnyddio'r systemau y mae ysgolion yn eu sefydlu i gofnodi a chefnogi cynnydd y dysgwyr, er mwyn gostwng baich llwyth gwaith ychwanegol****.*

*'Hefyd, adolygwyd y cynigion polisi mewn perthynas ag adroddiadau cynnydd 'ar ddiwedd y flwyddyn' mewn ymateb i'r adborth a gafwyd yn yr ymgynghoriad.* ***Yn ôl y gofynion bellach mae angen darparu Adroddiad Cynnydd Blynyddol, sy'n rhoi adborth ehangach am y cynnydd a wnaed ar draws y cwricwlwm cyfan, ond y pennaeth sydd i benderfynu ar amseriad hwn ac, fel y dywedwyd yn yr ymgynghoriad, y pennaeth sydd i benderfynu fformat hwn hefyd. Mae hyn yn golygu nad oes angen adroddiadau "ysgrifenedig" blynyddol erbyn hyn, gwaith sy'n cael ei feirniadu'n aml oherwydd yr amser y mae angen ei neilltuo i gynhyrchu'r rhain yn nhymor yr haf. Yn awr mae gan y penaethiaid yr awdurdod i benderfynu beth yw'r ffordd orau o roi gwybod i rieni am gynnydd y dysgwyr, felly gall y penaethiaid lunio trefniadau sy'n defnyddio eu systemau a'u prosesau mewn ffordd sy'n lleihau baich y llwyth gwaith.****'*

Mae'n amlwg o'r ymateb hwn ac o'r rheoliadau bod Llywodraeth Cymru wedi trosglwyddo'r rheolaeth dros y system adrodd newydd draw yn gadarn i'r penaethiaid. Mae'r ymateb hefyd yn dangos bod cyfle i ostwng baich y llwyth gwaith oherwydd yr adroddiad blynyddol drwy roi'r gorau i'r adroddiadau 'ysgrifenedig' a'r ymatebion manwl gan y meysydd dysgu unigol a symud at 'adborth ehangach ar y cynnydd a wnaed ar draws y cwricwlwm cyfan'. Hefyd, mae'r adroddiad blynyddol yn gorgyffwrdd â'r gofynion am adroddiad tymhorol. Mae hyn yn golygu bod modd cynnwys y trydydd adroddiad tymhorol yn rhan o'r adroddiad blynyddol.

## Cyngor i Aelodau

Mae'n bwysig nodi nad yw'r system adrodd newydd, y blynyddol a'r tymhorol, yn gofyn am sylwadau ysgrifenedig yn rhan o'r adroddiad nag am gyflwyniad ar wahân gan bob un o'r meysydd dysgu y mae'r disgybl yn eu hastudio. Mae'r pwyslais o ran yr adroddiad tymhorol ar y geiriau 'cryno a byr'. Yn ogystal, mae'r ffaith bod gofynion yr adroddiad blynyddol yn gorgyffwrdd â'r adroddiad tymhorol yn golygu bod yr adroddiad blynyddol yn gallu cynnwys yr adroddiad tymhorol, gan ostwng nifer yr adroddiadau i dri. Hefyd, nid yw'n nodi bod yn rhaid i'r adroddiadau fod yn ysgrifenedig. Mae hyn yn golygu y gallai'r ymgynghoriad blynyddol â'r rhieni gyflawni gofynion un o'r adroddiadau hyn yn ddigonol.

Dylai aelodau NASUWT fonitro'n agos sut y bydd y system adrodd newydd yn cael ei chyflwyno yn eu hysgol. Ni ddylai ysgolion uwchradd nad ydynt yn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru tan fis Medi 2023 weld unrhyw newidiadau tan hynny. Dylai aelodau mewn ysgolion sy'n cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru geisio ymgynghori â'r pennaeth gynted ag y bo modd i benderfynu pa fodel fydd yn cael ei ddefnyddio yn eu hysgol hwy. Dylai aelodau ddweud yn glir mai disgwyliad NASUWT yw na fydd cyflwyniad yr adroddiadau newydd hyn yn cael unrhyw effaith ar lwyth gwaith ac, yn wir, y dylai'r adroddiad blynyddol ar ei newydd wedd beri gostyngiad yn y llwyth gwaith.

Mae NASUWT yn credu bod gan aelodau mewn ysgolion yng Nghymru ddigon o waith i'w wneud o ganlyniad i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Nid yw'n dderbyniol bod y gwaith ychwanegol hwn yn cael ei gynyddu gan system adrodd newydd sy'n feichus ac yn ormodol.

Dylai aelodau NASUWT sy'n gweld bod cynnydd yn eu llwyth gwaith o ganlyniad i gyflwyno'r system adrodd newydd gysylltu ag Ysgrifennydd Trafod eu Cymdeithas Leol neu anfon e-bost at Ganolfan NASUWT Cymru yn: cymru-wales@mail.nasuwt.org.uk.

siaradwch â ni

Cymru-Wales@mail.nasuwt.org.uk
www.nasuwt.org.uk